# DDEDDF DEDDFWRIAETH (CYMRU) 2019

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 2: Dehongli a Gweithredu Deddfwriaeth Cymru

#### *Adran 31 – Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn Deddfau'r Cynulliad i rym*

159. Pan fo Deddf Cynulliad yn darparu i unrhyw un neu ragor o'i darpariaethau ddod i rym ar ddiwrnod a benodir drwy orchymyn, mae bron bob amser yn darparu y caiff gorchymyn benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. Mae adran 31 yn nodi'r gosodiad hwn yn gyffredinol, sy'n golygu na fydd angen cynnwys y ddarpariaeth hon fesul Deddf. Bydd hyn yn helpu i gwtogi Deddfau'r Cynulliad yn y dyfodol.

160. Mae adran 31 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Nid oes ganddi adran gyfatebol yn Neddf 1978.